


AMGUEDDFA
CYMRU



cerdd a chân

gweithgareddau 1-3

i fynd gyda'r gerdd a'r caneuon ar y DVD/CD



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

brethyn cartref

dysgwr

1. Cyn gwranddo ar y gân, penderfynwch pa eiriau yn y golofn dde sy'n ddiffiniad o'r rhai yn y golofn ar y chwith.

purion	basai'n mynd fel arfer
mân	coeden gollddail gyffredin
pannu	am byth
elai	yn dda iawn
breuddwydio	bach
tragwyddol	curo a gwasgu brethyn
llien	cysgu
ywen	gweld delweddu wrth gysgu
huno	defnydd
derw	coeden sy'n tyfu mewn mynwentydd

2. Nawr, gwrandewch ar y gân. Wrth wrando, ticiwch y gosodiad sy'n gywir:

- i) Enw'r ewyrth oedd:
a) Daniel b) Dafydd c) Dewi
- ii) Roedd e'n
a) Patriarch Llandre b) Patriarch Felin-foel c) Patriarch Felindre
- iii) Mae'r gân yn sôn am ei
a) wasgod b) grys c) got
- iv) Gwisgai'r un wisg wrth fynd
a) i'r dafarn b) i garu c) i chwarae
- v) Mae Dafydd yn
a) briod b) ddibriod c) bwriadu priodi
- vi) Mae Dafydd
a) yn mynd i gapel b) ddim yn mynd i gapel c) yn mynd i'r dafarn
- vii) Mae Dafydd yn hoffi
a) dilyn y ffasiwn ddiweddaraf b) gwisgo'r un dillad bob amser
c) newid ei ddillad bob dydd
- viii) Mae Dafydd
a) yn dost iawn b) wedi marw c) yn fyw ac yn iach
- ix) Yn y gân mae sôn am goeden. P'un?
a) onnen b) bedwen c) ywen

brethyn cartref

dysgwr

- x) Mae'r gân yn gorffen
a) yn drist am nad oes defaid ar ôl yn Nghymru b) yn hapus am fod y defaid wedi eu gwerthu c) yn hapus am fod defaid yn dal i bori yma.

3. Yn y gân mae nifer o ffurfiau tafodieithol. Cysylltwch y ffurf dafodieithol yn y golofn ar y chwith â'r ffurf safonol ar y dde:

grân	o'r blaen
gath	graen
Gla'mai	lliain
o'r blan	cafodd
llien	Calan Mai

4. Trafod:

- i) Pam, yn eich barn chi, mae brethyn cartref yn llai ffasiynol heddiw?
- ii) Ydyn ni'n rhy gaeth i ffasiwn heddiw?
- iii) Oes dyfodol i felinau gwlan Cymru?

brethyn cartref

dysgwr

Brethyn Cartref

Chi sy'n cofio F'ewyrth Dafydd,
Patriarch Felindre,
Chi sy'n cofio'n burion hefyd
Am ei frethyn cartre;
Aeth ei got yn hen heb golli
Dim o'i grân;
Roedd hi'n llwyd pan gath ei phannu:
Brethyn gwlan y defaid mân,
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r blân.

Felly elai mas i garu –
Yn ei frethyn cartre,
Ac ar ddiwrnod ei briodi
Gyda Neli'r Hendre;
I ffair G'lanmai â'r Gymanfa'n
Ddi-wahân,
'Run hen wisg a'r un hen grefydd:
Brethyn gwlan y defaid mân,
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r blân.

Gwisg o lien gwyn a derw
Sydd amdano heno,
Ac mae'r awel yn yr ywen
Dano hon mae'n huno:
Ond mae'r defaid eto'n pori
'Ngwlad y Gân,
Ac mae arnynt wlan yn tyfu:
Brethyn gwlan y defaid mân
Dyna fel y gwisgai'r oes o'r blân.

*William Crwys Williams:
Cerddi Crwys (Cyfrol 1) Gwasg Aberystwyth 1920*

canolradd ac uwch

merch o'r ffatri wlân

dysgwr

1. Wrth wrando ar y gân, ticiwch y geiriau rych chi'n eu clywed:

ffatri wlân; iaith; sylwi; oddi allan; gwyllt; freuddwyd; un; gyflog; preiddiau; brwyn; iach; mwyn; olwyn; tanio; gwlad; weu; Bannau; merch; diwrnod; creu; frethyn; oren; oriau; syrthio; brwydro; niwlog.

2. Atebwch: [Mae un cwestiwn am bob pennill.]

- i) Beth sy'n awgrymu yn y pennill cyntaf fod y ferch yn brysur iawn?
- ii) Beth yw'r paradocs mawr yn yr ail bennill?
- iii) Beth yw'r gwahaniaeth rhwng symudiadau'r 'gamlas fach' a'r olwyn?
- iv) Am ba ddwy broses mae'r pennill yn sôn?
- v) Beth ydyn ni'n ei ddysgu am y brethyn?
- vi) Pam yn eich barn chi mae'r gân yn sôn am y dail?

3. Trafodwch

- a) Mae'r gân yn awgrymu bod gwaith y ferch yn y ffatri wlân yn galed ac yn ddiflas. Pa eiriau / ymadroddion yn y gân sy'n cyfleu'r argraff yma?
- b) Pa ddarlun o'r merched a'r dynion sy'n gweithio yn y ffatri gawn ni yn y gân?

Merch o'r Ffatri Wlân

Dim ond merch o'r ffatri wlân
Wrth ei gwaith bob dydd
Heb sylwi dim ar y byd mawr oddi allan.

Roedd ei gwallt mor ddu a thlws
Fel rhyw freuddwyd rhyfedd yn fy nghwsg,
Ond mae'n gwneud gwaith dyn bob dydd am ei chyflog.

Rhwng y gwreiddiau dwfn a'r brwyn
Dan y gamlas fach sy'n rhuthro'i swyn,
Mor araf mae'r olwyn hen yn troi'r peiriannau.

A mae'r dyn yn tanio'r tân
Lle mae Jac â'r bois yn golchi'r wlân,
Ond mae'r gwŷr yn dal i weu ar y glannau.

Dim ond merch o'r ffatri wlân
Wrth ei gwaith bob dydd;
Hi sy'n creu o'r ade frethyn llywiog.

A mae'r oriau'n hir a llawn,
Dyddiau'n ddail sy'n cwmpo i lawr
Ar y dŵr sy'n crwydro draw drwy'r fore niwlog.

Dim ond merch o'r ffatri wlân
Wrth ei gwaith bob dydd.

gan Meic Stevens

canolradd ac uwch

ein hiaith a’n brethyn

dysgwr

1. Pa ddiffiniad sy’n disgrifio’r gair / geiriau ar y chwith?

gwŷdd	fine cloth
gweu	a loom
brethyn	thread
ffrâm wau	a loom
edafedd	to weave, to knit
brethyn main	cloth

2. Atebwch y cwestiynau:

- Pa fath o ddillad roedd yr hen wŵr yn eu gwneud?
- Sut roedd dillad y gŵr ifanc yn wahanol?
- Beth oedd agwedd pobl ifainc at yr hen wŵr?
- Beth yn y gerdd sy’n awgrymu bod y bobl ifainc yn cefnogi’r gŵr iau?
- Pam roedd yr offer newydd yn ddi-werth yn y diwedd?
- Pam dewisodd y bardd y teitl ‘Ein Hiaith a’n Brethyn’?

3. O dan enw pwy basech chi’n rhestru’r geiriau yma?

hardd; trwm; lliwgar; di-werth; hen; main; esmwyth; cynnes; prydfferth; trwchus; llachar.

Yr hen wŵr	Y gŵr ifanc

canolradd ac uwch

ein hiaith a'n brethyn

dysgwr

4. Dywedwch rywbeth am y gerdd gan ddefnyddio'r geiriau yma – un frawddeg ar gyfer pob gair / ymadrodd:

gwawdio; heb boeni iot; ymhen amser; cadw'r oerfel draw; cael hyd i; un iau; yn ôl y bobl; yr offer newydd.

5. Trafod:

Dywedwch stori'r gerdd yn eich geiriau eich hun.

Ydy cadw iaith yn bwysig yn eich barn chi?

Rhyw 50,000 yn unig sy'n siarad Gaeleg. Pa fanteision sydd gan y Gymraeg o'i chymharu â'r Aeleg yn eich barn chi?

Ydyn ni'n rhy barod i ddilyn y ffasiwn diweddaraf?

Ganed Anna Frater yn 1967 yn Pabail Uaraich (Bayble Uchaf) ar Ynys Leòdhais (Lewis) yn yr Alban. Ar ôl derbyn ei haddysg uwchradd yn Ysgol Nicolson yn Steòrnabhagh (Stornoway) aeth ymlaen i Brifysgol Glasgow lle yr astudodd hi Aeleg a Ffrangeg. Yno y daeth hi o dan ddylanwad un o feirdd Gaeleg pwysicaf yr Alban, Ruaraidh MacThòmais (Yr Athro Derick Thomson). Mae dyfodol ei gwlad a'i hiaith yn themâu cyson yn ei cherddi. Cyhoeddwyd un casgliad o'i gwaith 'Fon T-Slige' (Dan y Gragen) yn 1995 ac enillodd ei doethuriaeth am astudiaeth o waith rhai o feirdd benywaidd cynharach yr Aeleg.

ein hiaith a'n brethyn

dysgwr

Ein Hiaith a'n Brethyn

Roedd hen wŷr yn fy mhentre'
A chanddo wŷdd.
Â'r gwŷdd gweai frethyn
Y gwneid dillad ohono
A wisgai'r werin –
Dillad trwm, trwchus i'w cadw'n gynnes.
Ond daeth gŵr arall.
Un iau,
Na pherthynai i'r plwy' hwn,
A chanddo ffrâm wau newydd
Ac edafedd newydd –
Â'u lliwiau wedi'u dwyn oddi ar yr enfys –
A brethyn main, esmwyth
Oedd yn hardd, yn ôl y bobl.
Dalai'r hen wŷr ati
Â'r hen wŷdd
A byddai'r rhai ifainc
Yn ei wawdio
A phrynnodd pobun
yr offer newydd a dechrau gwau'r
brethyn modern
heb boeni iot
am y defnydd ar ffrâm wau'r hen wŷr.
Ond ymhen amser
daeth y gaeaf
ac ni allai'r brethyn main
â'i edafedd prydferth
a'i liwiau llachar
gadw'r oerfel draw.
A di-werth
oedd yr offer newydd.
Ceision nhw'r hen wŷr
a chael hyd i'w ffrâm wau
a gweld y brethyn,
ond ni allent weithio'r gwŷdd
am ei fod wedi rhydu
a'r henwr wedi marw.

Cerdd Aeleg gan Anna Frater (cyf. Cennard Davies)